# Nodiadau ar Arddangosfa
# SYR WILLIAM JONES (1746-1794)

## gan CARYL DAVIES



*Llun Syr William Jones o'r gyfrol* Letters of Sir William Jones . . . from Lord Teignmouth's collecion, *1821. Mae'r llun yn seiliedig ar ddarlun gwreiddiol o waith Syr Joshua Reynolds sydd wedi bod ym meddiant y teulu Spencer, teulu Tywysoges Cymru, am flynyddoedd.*

YN YSTOD haf 1994 cynhaliwyd arddangosfa yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru i gydredeg â chynhadledd undydd i goffáu daucanmlwyddiant marwolaeth Syr William Jones, yr ieithydd a ieithegydd o fri. Bu farw yn Calcutta yn 1794. Addurnir catalog yr arddangosfa â darlun hardd o William Jones gan Syr Joshua Reynolds ac roedd yr arddangosfa ei hun yn cynnwys dewisiad o'i weithiau argraffedig ac o gyfrolau amdano, ynghyd â llawysgrifau o lythyrau ganddo yng nghasgliad y Llyfrgell. Trefnwyd yr arddangosfa gan Charles Parry a Geraint Phillips.

Brodor o Fôn oedd tad Syr William Jones, mathemategydd enwog yn ei ddydd (1675-1749), a chyfaill i Newton a Halley. Yr oedd ei fab, yntau, yn llwyr ymwybodol ei fod yn 'hanner-Cymro', ac roedd yr arddangosfa yn adlewyrchu amryw o'i gysylltiadau â Chymru a'i ddiddordeb ynddi.

Wedi cyrraedd yr India ym 1783, i swydd barnwr ar y fainc yn nhalaith Bengal, aeth ati i ddysgu Sanscrit er mwyn deall a dehongli cyfreithiau brodorol y wlad, eithr torrwyd ar y llafur pwysig hwn gan ei farw cynnar ym 1794. Fe'i cynrychiolwyd yma gan *Manava-Dherma-Sastra; or the Institutes of Menu* (gold. G. C. Haughton, Llundain, 1824). Dangosodd llyfrau eraill yn yr arddangosfa ei ddiddordeb cynnar yn ieithoedd y dwyrain, er enghraifft: *A Grammar of the Persian Language* (Llundain, 1771); *Poems consisting chiefly of Translations from the Asiatick Languages . . .* (Rhydychen, 1772). Adlewyrchwyd hefyd ei ddiddordeb mewn cerddoriaeth Hindwaidd, ac mewn agweddau eraill ar fywyd diwylliannol a gwyddonol y dwyrain pell.

O'r India yr ysgrifennwyd y pum llythyr yn llaw William Jones a welwyd yn yr arddangosfa. Nodyn o ddiolch yw un ohonynt (Llsg. NLW 12857C) i'w gyfaill Richard Johnson am ddanfon gyrr o eifr ato'n anrheg. Effaith yr anrheg hon oedd dwyn i gof William Jones y geifr gwylltion y cyfarfu â hwynt ar daith drwy Eryri yn 1775, ac y mae'n ei uniaethu'i hun â'r creaduriaid Cymreig hyn yn y geiriau cellweirus: *'There never, I hope, was a* Guilym ap Shôn *(Anglicè* William Jones*) who had not a love for* goats *his brother-mountaineers . . .'*

Mewn llythyr arall (Llsg. NLW 6701C), anogodd gyfaill o gyfreithiwr, Thomas Milles, i gyfarch *'the Druids of the Tivy'* ar ei ran, a dywed ei fod yn bwriadu ysgrifennu *'a General Epistle'* atynt. Cylch o dwrneiod oedd y 'derwyddon' hyn y bu William Jones yn troi yn eu cwmni yn ystod ei gylchdeithiau yn ne-orllewin Cymru yn ystod y blynyddoedd 1775-1783. Cyfansoddodd ddyrnaid o gerddi achlysurol ysgafn ar gyfer eu gwibdeithiau pleserus i'r wlad, y *'fêtes champêtres'*, fel y'u geilw, a gynhaliwyd gan y criw cyfreithiol ysgafnfryd hwn ar lannau Teifi. Dengys llinell gyntaf un ohonynt: *'Why should old* Tivy, *boys, claim all our duty paid? . . .'* naws hwyliog y cymdeithasu yn yr awyr agored. Teitl un arall yw *'The damsels of Cardigan'*.

Eitem o ddiddordeb arbennig ymhlith y llawysgrifau oedd llythyr (Llsg. NLW 21282E) oddi wrth William Owen Pughe at Iolo Morganwg yn cynnwys trafodaeth ar draethawd gan William Jones *'On the orthography of Asiatic words in Roman letters'* (1784). Ceir yn y llythyr hwn adflas o'r effaith gynhyrfus a gafodd myfyrdodau William Jones yn yr India bell ar syniadaeth yng Nghymru, effaith a adlewyrchir hefyd mewn llawysgrifau eraill yng nghasgliadau'r Llyfrgell.

Ymhlith y testunau argraffedig a welid yn yr arddangosfa, ac un sydd yn dal perthynas arbennig â Chymru, yw *'An Ode in Imitation of Alcaeus'*, a gyhoeddwyd yn 1781 mewn un ddalen ffolio wedi'i phlygu. Un o gerddi mwyaf adnabyddus a chywrain yr awdur yw hon, ac enghraifft gynnar o'i syniadau rhyddfrydol am natur a phwrpas gwladwriaeth. Ysgrifennwyd hi *'in my chaise'* rywle rhwng y Fenni a Threcastell, yn ystod un o deithiau Jones at ei waith ar y gylchdaith.

Y mae'r gweithiau cynhwysfawr: *The Works of Sir William Jones with the life of the author, by Lord Teignmouth* (Llundain, 1807), a *The Letters of Sir William Jones edited by Garland Cannon* (Rhydychen, 1970), a gynhwyswyd yn yr arddangosfa, yn cynnwys llawer o gyfeiriadau eraill at Gymru a pherthynas William Jones â hi. Yn y llythyrau ceir disgrifiadau bywiog a lliwgar o'r wlad tua diwedd y ddeunawfed ganrif, cyflwr ei thrigolion yn ogystal â'i thirlun prydferth yn y gogledd a'r de. Ac yng nghyfrol gyntaf y *Works* — bywgraffiad Jones gan Teignmouth, ei gyfaill ar ddiwedd oes — argraffwyd llythyr nodweddiadol a ysgrifennwyd gan Lewis Morris ar ddydd Calan 1748/9 at William Jones, y tad, yn amgáu cart achau i ddangos y berthynas deuluol rhyngddynt.

Cysylltiad arall rhwng William Jones â Chymru oedd hwnnw a grëwyd yn ardal Wrecsam gan helynt *The Principles of Government* yn ystod y blynyddoedd 1783-85. Pamffledyn oedd hwn ar ffurf deialog, yn datgan egwyddorion pur radicalaidd am ei ddydd. Ymddangosodd yn 1782 dan nawdd y *Society for Constitutional Information*, a'i ailgyhoeddi y flwyddyn ganlynol yn Wrecsam gan William Shipley, Deon Llanelwy a brawd-yng-nghyfraith i Syr William Jones. Cafwyd enghreifftiau o'r ddau argraffiad yn yr arddangosfa, yn ogystal â chopi o *Barn, ar egwyddorion y llywodraeth, mewn ymddiddan rhwng pendefig a hwsmon* (1785). Anterliwt oedd hon yn aralleirio *The Principles of Government,* traethawd gwreiddiol William Jones, ac y mae'n cynnwys hefyd amlinelliad o'r helyntion cyfreithiol cymhleth a gododd yn sgil ei adargraffu yn Wrecsam — a'r cyfan yn iaith rywiog, werinol Sir Ddinbych. Ymhlith y llawysgrifau yn yr arddangosfa yr oedd adroddiad ar brawf Shipley yn 1783, gyda nodiadau yn llaw Thomas Pennant (Llsg. NLW 2598C).

Testun arall a ddangosid oedd catalog o'r llyfrau yn llyfrgell Syr William Jones ar ddiwedd ei oes, a werthwyd ym mis Mai 1831 (R. H. Evans, *Catalogue of the library of the late Sir William Jones . . .* (Llundain, 1831).) Ychydig o lyfrau Cymraeg sydd ymhlith y teitlau yma, ond diddorol yw sylwi ar argraffiad cyntaf *Poetical Relicks of the Welsh Bards* (1784) gan Edward Jones, 'Bardd y Brenin', a gwaith gan yr ieithegydd o Gymro, William Baxter, sef *Reliquiae Baxterianae* (1726), yn cynnwys y *Glossarium Antiquitatum Romanarum* anghyflawn. Un o ohebwyr brwd Edward Lhuyd wrth iddo baratoi'r *Archaeologia Britannica* oedd William Baxter, ac y mae'n werth nodi hefyd y bu tad William Jones (ynghyd â Syr Isaac Newton) yn un o'r tanysgrifwyr i lyfr arall gan Baxter, y *Glossarium Antiquitatum Britannicarum* pan ymddangosodd yn 1719.

Yn yr arddangosfa hon, felly, dadlennwyd amryw o'r cysylltiadau a glymai Syr William Jones wrth ei linach Gymreig.

Gair i gasglwyr: daw llythyrau a nodiadau o law William Jones o hyd i'r farchnad o bryd i'w gilydd. Cadwch eich llygaid yn agored amdanynt.